# BYWYD YR YSTLUM

*"Sut oedd bywyd i ystlum ers talwm Nain?"*
Roedd yr awyr cyn ddued ag adenydd brain!
A phryfaid yn dew hyd a lled y fro,
Pryfaid ym mhobman ac i rownd bob tro;
Gwyfynnod tew, blasus o bob llun a lliw
A ninnau'n eu hela bob nos yn un criw!

*"Dan ni'n llwgu bellach! Be' ddigwyddodd Nain?*
*Does dim byd i'w hela ond mymryn o chwain!"*
Daeth y golau. Y golau - a chwalu ein byd,
Yn dallu a drysu a difetha o hyd:
Golau'r cae rygbi, y siop jips a'r sied,
A'r golau sy'n fflachio ar do mawr tŷ Ned.

*"Mae hyn yn drychineb! O! be wnawn ni Nain?"*
Meddai'r ystlum fach ofnus ac ar brigau'r drain.
Mi chwiliwn am gartref sydd yn llawer iawn gwell,
Lle mae'r tw'llwch yn agos a'r llygredd yn bell;
Mi awn i fro Carnguwch, down o hyd i dŷ
Lle mae'r awyr yn dywyll a'r nos yn ddu.

Ysgol Pentreuchaf
6 Mawrth 2026